

Gwasanaethau Cymunedol

Teleofal A Thechnoleg

Gynorthwyol



Chwefror
2025

TELEOFAL A THECHNOLEG GYNORTHWYOL - TAFLEN WYBODAETH

This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg

YN YMWNEUD Â	Gwasanaethau Teleofal
RHIF CYFEIRNOD	LL12
ADRAN	Ar draws y Portffolio
AWDUR	Paula Curtis
DYDDIAD YR ADOLYGIAD DIWETHAF	Chwefror 2025
DYDDIAD YR ADOLYGIAD NESAF	Chwefror 2027

Cynnwys


TELEOFAL A THECHNOLEG GYNORTHWYOL YN SIR Y FFLINT	4
BETH YW TELEOFAL A THECHNOLEG GYNORTHWYOL?	4
GWYBODAETH	4
CYNGOR.....	5
CYMORTH	5
OFFER	5
SUT I GYSYLLTU Â'R GWASANAETH TELEOFAL A THECHNOLEG GYNORTHWYOL	7
CYSYLLTIADAU DEFNYDDIOL.....	8
CWYNION, CANMOLIAETH A SYLWADAU	9

TELEOFAL A THECHNOLEG GYNORTHWYOL YN SIR Y FFLINT

Mae'r Tîm Teleofal yn dîm arbenigol sy'n cynnig gwybodaeth, cyngor a chymorth ar gynhyrchion, offer a systemau sy'n gwella bywyd bob dydd pobl ag anabledau.

BETH YW TELEOFAL A THECHNOLEG GYNORTHWYOL?

Mae'r Gwasanaeth Teleofal a Thechnoleg Gynorthwyol yn wasanaeth cynhwysol sy'n cefnogi unrhyw un sy'n byw yn Sir y Fflint.



GWYBODAETH

Gall y Tîm Teleofal a Thechnoleg Gynorthwyol roi gwybodaeth am Carelink a chyfeirio at wasanaethau eraill a allai fod o gymorth.

CYNGOR

Gwybodaeth arbenigol ar Deleofal a thechnoleg gynorthwyol sydd yn benodol i'ch amgylchiadau unigol.

Gallwn ddarparu cyngor ar gyfarpar sydd gennych eisoes o bosib a all gefnogi eich sefyllfa.

Gallwn ni eich cefnogi chi drwy gyfeirio at allfeydd manwerthu perthnasol.

CYMORTH

Gallwn ddarparu ystod o gyfarpar yn dilyn asesiad arbenigol i fodloni eich canlyniadau unigol.

OFFER

Gall cysylltu offer teleofal cysylltiedig â chanolfan fonitro neu ffôn symudol. Dyma enghreifftiau o'r rhain:

- Synwryddion Mwg
- Synwryddion Codymau
- Synwryddion Drws
- Synwryddion Llifogydd
- Synwryddion Epilepsi
- Synwryddion pan fo rhywun yn gadael y gwely
- Synwryddion Symudiadau
- Cloch Drws ag iddi Fideo
- Dyfais Lleoliad GPS
- Cynhwysydd Dosbarthu Tabledi
- System Rhybuddio Gofalwyr
- Apiau Iechyd a Lles

Cymhorthion cyfathrebu a synhwyrdd fel cyfeirio a chefnogi gydag Amazon Echo, Alexa, Facebook Portal, defnyddio Facetime ac ati

Lleihau'r perygl o syrthio trwy ddefnyddio synhwyrdd codymau, synhwyrdd symudiadau PIR, synwryddion gadael y gwely/cadair

Meddyginiaeth fel cefnogaeth i adolygu meddyginiaeth, blychau trefnu tabledi, pecynnau swigod, blychau meddyginiaeth a blychau dosbarthu tabledi



Tawelwch meddwl i rieni fel eu cyfeirio nhw at gyfyngwyr ynghlwm wrth ffenestri, cloeon rheoli cypyrddau a phoptai, synwryddion mynd allan drwy'r drws,

Diogelwch Tân yn cynnwys gweithio ar y cyd â'r gwasanaeth tân, synwryddion mwg, giard stofiau a falfiau nwy y gellir eu cloi, sydd ar gael drwy'r gwasanaeth tân


Cefnogi pobl â dementia i gael mynediad i'r gymuned yn ddiogel â rhwyd ddiogelwch, fel Dyfais Lleoliad GPS, synwryddion mynd allan drwy'r drws a chyfeirio at apiau, Memo Minder PIR

SUT I GYSYLLTU Â'R GWASANAETH TELEOFAL A THECHNOLEG GYNORTHWYOL


Mae'r tîm Teleofal yn cynnwys Cydlynnydd Teleofal a Swyddog Teleofal sy'n fwy na pharod i ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych chi.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Un Pwynt Mynediad

 03000 858 858

 SSDUTY@flintshire.gov.uk

 Preswylfa, Ffordd Hendy, Yr Wyddgrug, CH7 1PZ

CYSYLLTIADAU DEFNYDDIOL

Mae ystod eang o sefydliadau gwirfoddol yn darparu cyngor a chymorth annibynnol. Gallwch gysylltu â nhw i gael gwybod am eich hawliau.

Canolfan Cyngor ar Bopeth Sir y Fflint	
08444 772020	www.flintshirecab.org.uk
Gofal a Thrwsio Sir y Fflint Mae Gofal a Thrwsio Sir y Fflint yn rhoi cyngor ar atgyweiriadau tai, addasiadau a budd-daliadau ar gyfer pobl anabl a'r henoed.	
01352 758700	www.flintshirecr.co.uk
Age Connects Gogledd-ddwyrain Cymru	
08450 549969	www.acnew.org.uk
Llinell Gymorth Mencap Cymru	
0808 808 1111	www.mencap.org.uk/wales
MIND	
01352 757637	www.flintshiremind.org.uk
Gwasanaeth Gwybodaeth Gofalwyr Gogledd-ddwyrain Cymru (NEWCIS)	
01352 752525	www.carers.org/local/wales/flintshire
Gwasanaethau Cymdeithasol Cyswllt Cyntaf, Preswylfa, Ffordd Hendy, yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 1PZ	
03000 858 858	SSDUTY@flintshire.gov.uk www.flintshire.gov.uk/careinfo

CWYNION, CANMOLIAETH A SYLWADAU

Er gwaethaf ein holl ymdrechion, ar adegau, rydyn ni'n gwybod y gallech chi fod angen gwneud cwyn. Gallwch wneud unrhyw gŵyn am y gwasanaethau i'ch Gweithiwr Cymdeithasol, eu Rheolwr Tîm neu fe allwch gysylltu â'r:

Swyddog Cwynion

Gwasanaethau Cymdeithasol

Tŷ Dewi Sant

Parc Dewi Sant

Ewlo

Sir y Fflint, CH5 3FF

01352 702623

Mae taflen "Eich hawl i ganmol a chwyno", sy'n egluro sut i gyflwyno eich sylwadau a sut y byddant yn cael eu trin, ar gael o'r un cyfeiriad neu ar-lein ar: www.flintshire.gov.uk/careinfo

Mae ystod eang o wybodaeth am y system gofal a chymorth yng Nghymru ar gael ar-lein ar: www.dewis.cymru

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. Cysylltwch â 03000 858 858 i gael fersiwn Saesneg.

This document is available in English. Please contact 03000 858 858 for a version.

Mae'r daflen wybodaeth hon ar gael mewn fformatau eraill gan gynnwys Braille a Phrint Bras trwy ffonio 03000 858 858.